Briff i'r Ymgeisydd a Disgrifiad o'r Swydd

Uwch-aelodau Annibynnol o'r Panel ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru

Rhagair gan Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

"Diolch am eich diddordeb yn swydd Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.

Bob blwyddyn yng Nghymru, gwneir dros 100 o benodiadau cyhoeddus ar draws ystod o gyrff cyhoeddus, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau. Mae'r rhain yn benodiadau tyngedfennol, sy'n rhoi cyfle i arwain a siapio'r gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnynt, ynghyd â dylanwadu ar y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, mae'n amlwg, wrth recriwtio i fywyd cyhoeddus, nad ydym yn gwneud y mwyaf o'r talentau amrywiol sydd i'w cael ym mhob rhan o'n cymunedau, ac mae llawer o'n byrddau yn parhau i fod heb gynrychiolaeth o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.

Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, rwyf wedi ymrwymo i newid hyn, ac ym mis Chwefror, lansiais y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru – y strategaeth gyntaf o'i math i gael ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Ategir y Strategaeth hon gan gynllun gweithredu, sy'n nodi rhaglen waith uchelgeisiol gyda'r nod o wneud y broses benodi yn fwy hygyrch a gwella amrywiaeth ein penodiadau cyhoeddus.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rwy'n awyddus i sicrhau bod y Paneli Asesu Cynghorol sy'n recriwtio ar ran Gweinidogion Cymru yn cynnig y cyngor, y safbwyntiau a'r profiadau gorau posibl wrth gyfweld ag ymgeiswyr. Mae Uwch-aelodau Annibynnol o'r Panel yn recriwtio i'r penodiadau cyhoeddus mwyaf arwyddocaol yng Nghymru, felly ymddengys ei bod yn rhesymegol dechrau gyda hyn. Byddwn yn recriwtio pwll o Uwch-aelodau Annibynnol o'r Panel o amrywiaeth o gefndiroedd, er mwyn llywio'r broses recriwtio, ac eistedd ar baneli recriwtio'r penodiadau mwyaf arwyddocaol.

Fe'ch anogaf i ystyried y cyfleoedd hyn yn ofalus a dymunaf bob llwyddiant i chi yn eich cais".

Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus a Reoleiddir

Mae Llywodraeth Cymru yn noddi dros 50 o gyrff cyhoeddus a reoleiddir yng Nghymru a, bob blwyddyn, gwneir tua 100 o benodiadau cyhoeddus gan Weinidogion i'r cyrff hyn.

Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cyflawni ystod eang o swyddogaethau pwysig megis rheoleiddio annibynnol, cyngor, dyfarnu, gwasanaethau ombwdsmon, ariannu, partneriaeth, gwasanaethau masnachol ac iechyd.

Caiff pob penodiad a wneir gan Weinidogion Cymru ei wneud yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus ac fe'u rheoleiddir gan Gomisiynydd Penodiadau Cyhoeddus y DU (y Gwir Anrh Peter Riddell CBE).

Diben y Swydd

Pryd bynnag y ceir penodiad cyhoeddus arwyddocaol i gorff cyhoeddus a reoleiddir, caiff panel penodi (a elwir fel arall yn Banel Asesu Cynghorol) ei gynnull i oruchwylio'r broses. Bydd Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel yn aelod o'r panel hwnnw a bydd yn chwarae rôl hanfodol ar gyfer sicrhau bod y broses recriwtio'n cael ei chynnal mewn ffordd deg a thryloyw, yn unol â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Mae hyn yn helpu i roi sicrwydd i'r Gweinidog perthnasol a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy gaiff ei benodi. Nid dewis ymgeiswyr ar gyfer y penodiad dan sylw yw rôl y panel penodi, ond rhoi rhestr i'r Gweinidogion o'r ymgeiswyr a all ymgymryd â'r penodiad – y gall y Gweinidogion wneud eu dewis ohonynt.

Rhaid i'r Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r corff cyhoeddus y gwneir penodiad iddo ac ni ddylai fod yn wleidyddol weithgar ar hyn o bryd*.

Mae gan baneli penodi rôl allweddol hefyd wrth archwilio gwrthdaro posibl o ran buddiannau a diwydrwydd dyladwy, felly mae angen i'r Uwch-aelodau Annibynnol o'r Panel feddu ar ddealltwriaeth o'r hyn sydd o fudd i'r cyhoedd ac egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan.

Mae gan yr Uwch-aelodau Annibynnol o'r Panel gyfrifoldeb hefyd i roi gwybod am unrhyw bryderon am y broses benodi i'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac, os oes angen, i'r Comisiynydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cadw rhestr o Uwch-aelodau Annibynnol o'r Panel y gellir galw arnynt yn ôl yr angen. Bob tro y cynigir Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel ar gyfer ymgyrch benodol, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ynghylch y dewis hwnnw, cyn i'r broses ddechrau.

Gall Uwch-aelodau Annibynnol y Panel cael eu gwahodd hefyd i gymryd rhan mewn ymgyrchoedd recriwtio i Uwch-wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru.

Ar gyfer pob ymgyrch recriwtio, byddai angen i'r Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel fod ar gael am oddeutu 4 diwrnod i ganiatáu amser ar gyfer cyfarfodydd sifftio, cyfweliadau a thrafodaethau ar ôl y cyfweliadau. Yn ogystal, byddai angen i'r Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel fod yn barod i ymgymryd â rhywfaint o hyfforddiant a datblygiad yn ystod cyfnod ei benodiad. Amcangyfrifwn ymrwymiad amser o oddeutu 10 niwrnod y flwyddyn.

Dylai paneli cyfweld fod mor amrywiol â phosibl ac adlewyrchu'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu er mwyn gwneud penodiadau sydd eu hunain yn amrywiol. Felly, rydym yn awyddus i ddenu aseswyr o wahanol gefndiroedd a phob math o swyddi sydd â phrofiadau bywyd gwahanol.

Bydd Uwch-aelodau Annibynnol o'r Panel yn dymuno ymgyfarwyddo â'r Cod Llywodraethu ar benodiadau cyhoeddus. Byddant hefyd yn dymuno nodi'r rhestr o benodiadau arwyddocaol gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'n ofynnol cael Uwch-aelod Annibynnol o'r Panel ar gyfer y penodiadau hyn pan benodir Cadeirydd.

[**Diffinnir bod yn wleidyddol weithgar fel unigolyn sy'n cael ei gyflogi gan blaid wleidyddol, sy'n dal swydd bwysig mewn plaid, sy'n sefyll fel ymgeisydd dros blaid mewn etholiad, sydd wedi siarad yn gyhoeddus ar ran plaid wleidyddol neu wedi gwneud rhoddion neu fenthyciadau sylweddol i blaid. Benthyciadau a rhoddion sylweddol yw'r rheini o faint sy'n cael eu hadrodd i'r Comisiwn Etholiadol, yn unol â throthwy adrodd y blaid ganolog*.]

Meini Prawf Penodol i'r Swydd:

Rhaid bod yr Uwch-aelodau o'r Panel:

- Yn dangos ymrwymiad clir i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a dealltwriaeth o hynny;
- Yn meddu ar brofiad o recriwtio uwch-swyddogion neu brofiad tebyg arall i ddod â'r persbectif hwn;
- Yn gyfarwydd â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, egwyddorion penodiadau cyhoeddus ac egwyddorion Nolan;
- Yn meddu ar ddealltwriaeth o waith cyrff cyhoeddus yng Nghymru;
- Yn deall sut mae grwpiau amrywiol yn dod â'u profiadau bywyd fel sgiliau a phrofiadau trosglwyddadwy;
- Yn meddu ar sgiliau rhyngbersonol da ac yn barod i herio, lle bo angen, tra'n gweithio fel aelod o'r panel penodi.

Sgiliau yn y Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a meithrin galluoedd dwyieithog ym maes penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ac er nad yw sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, byddent yn fuddiol i waith y Paneli Asesu Cynghorol. Disgwylir i aelodau'r Panel ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd ac ymrwymiad i hybu a phrif-ffrydio'r Gymraeg. Rydym yn croesawu eich cais beth bynnag yw eich lefel sgiliau.

Cydraddoldeb

Mae'n bolisi gennym i hyrwyddo cyfle cyfartal a'i wneud yn rhan annatod o bob agwedd ar ein gwaith, gan gynnwys penodi.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion, beth bynnag y bo eu hoed, statws priodasol (gan gynnwys priodas o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, anabledd, hil, crefydd neu gred neu beichiogrwydd a mamolaeth.

Mae Cymru wedi cymryd camau breision o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau (er enghraifft, yn 2018/19, roedd 63.5% o'r rhai a benodwyd i fyrddau yng Nghymru yn fenywod, yn ôl Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus y DU). Fodd bynnag, mae pryder ynghylch y cyfrannau isel o bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME)[1] (3.0%) a phobl sy'n datgan anabledd (5.1%) a benodir i fyrddau yng Nghymru.

Yn y blynyddoedd sydd i ddod, bydd rhaid mynd i'r afael ar fyrder â'r her o unioni'r ffaith na cheir cynrychiolaeth ddigonol o bobl BAME a phobl anabl. Felly rydym yn annog ceisiadau gan y grwpiau gwarchodedig hyn yn benodol.

Sut i wneud cais

Dylid gwneud cais drwy ddefnyddio system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru a dylid cyflwyno'r cais **erbyn 16:00 ddydd Mawrth 1 Medi 2020 fan hwyraf.**

I wneud cais, gofynnir ichi gofrestru i gael cyfrif ar y system ymgeisio ar-lein gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost. Rydym yn argymell eich bod yn dewis cyfeiriad cyfrif e-bost nad oes gan neb arall fynediad ato, gan mai dyma fydd ein prif ddull o gyfathrebu â chi ynglŷn â'r broses ddethol.

Os oes gennych nam a fyddai'n eich atal rhag gwneud cais ar-lein, anfonwch e-bost i penodiadau cyhoeddus i ofyn am fformat arall, neu i ofyn am addasiad rhesymol sy'n gysylltiedig â nam er mwyn cyflwyno eich cais.

Fel rhan o'r broses recriwtio, bydd yn ofynnol i chi ddarparu'r canlynol:

- **Ffurflen gais wedi'i chwblhau**
- **CV cyfredol** yn nodi hanes eich gyrfa sy'n nodi cyfrifoldebau allweddol a / neu sy'n amlinellu eich profiad bywyd ac unrhyw lwyddiannau allweddol
- **Datganiad personol heb fod yn fwy na dwy ochr A4** sy'n esbonio sut y mae'ch cymwysterau, sgiliau, rhinweddau a'ch profiad, a all gynnwys profiadau 'bywyd', yn eich gwneud yn addas i'r swydd ac, yn benodol, sut rydych yn bodloni manyleb y person.

Cyfweliadau

Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal **yr wythnos sy'n dechrau 12 Hydref**. Maent yn debygol o gael eu cynnal fel cyfweliadau rhithwir drwy Microsoft Teams neu Skype. Bydd y cyfweliadau yn para rhyw 45 munud.

[1] Mae amrywiaeth eang o derminoleg ar gyfer ethnigrwydd ac mae'n well gan wahanol grwpiau ac unigolion gael labeli gwahanol. Ar hyn o bryd mae BAME yn cael ei ddefnyddio'n eang yng nghyhoeddiadau'r Llywodraeth.

Bydd eich cyfweliad yn ystyried sut y mae eich sgiliau a'ch profiad, fel yr amlinellwyd yn eich ffurflen gais, eich CV a'ch datganiad personol, yn diwallu gofynion y swydd hon.

Y Panel dethol fydd:

- Kathryn Bishop, Cadeirydd, Awdurdod Cyllid Cymru (Cadeirydd)
- Lawrence Conway, Cadeirydd Chwaraeon Cymru
- Craig Greenland, Pennaeth yr Uned Penodiadau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
- Usha Ladwa-Thomas, Pennaeth Gweithredu'r Strategaeth Amrywiaeth, Llywodraeth Cymru

Gwrthdaro Buddiannau

Rhaid i'r ymgeiswyr nodi'r gofyniad i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau fel buddiannau busnes, cyfranddaliadau, swyddi o awdurdod, taliadau cadw, trefniadau ymgynghori neu gysylltiadau eraill â chyrff masnachol, cyhoeddus neu wirfoddol, o'u rhan eu hunain ac o ran eu gŵr/gwraig neu bartner.

Telerau'r penodiad

Penodiad gweinidogol am dymor o dair blynedd fydd hwn. Fodd bynnag, er y byddwn yn gwneud pob penderfyniad ar benodiadau ar yr un pryd, byddwn yn amrywio'r dyddiad cychwyn fel na fydd pawb yn dechrau yn eu swyddi ar unwaith.

Rydym yn gobeithio gallu cynnig rhywfaint o hyfforddiant i Uwch-aelodau Annibynnol o'r Panel yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

Tâl

Mae hon yn swydd sy'n talu ffi a byddwch yn cael ffi safonol o £290 y dydd ynghyd â threuliau rhesymol.

Gwiriadau diogelwch
Bydd angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus gael gwiriadau diogelwch safonol cyn dechrau'r swydd.

Hyderus o ran Anabledd
Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu mewn modd sy'n analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob ymgeisydd berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd yn gyffredinol a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac rydych yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, neu drafod sut y byddem yn eich cefnogi pe baech yn llwyddiannus, e-bostiwch penodiadau cyhoeddus cyn gynted â phosibl. Bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion a'ch cwestiynau. Fel arall, mae'n bosibl y byddwch am ffonio Catherine Evans ar 03000 250310 neu Craig Greenland ar 07870 385175.

Gwybodaeth am Amrywiaeth

Bydd gofyn i chi lenwi'r Ffurflen Monitro Amrywiaeth, ond ni fydd yn cael ei datgelu i unrhyw un sy'n ymwneud ag asesu eich cais. Os nad ydych am ateb cwestiwn penodol, dewiswch yr opsiwn 'gwell gennyf beidio â dweud'. Ni fydd modd ichi gyflwyno'ch cais os oes unrhyw un o'r cwestiynau ar ôl heb ei ateb.

Drwy gasglu'r wybodaeth hon, gallwn weld a ydym yn recriwtio o'r pwll ehangaf posibl o ddoniau, a sicrhau bod yr holl grwpiau'n cael eu trin yn deg drwy gydol y broses.